| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**YNYS MÔN 2026** |
| | **Cystadleuaeth 89– Parti Cerdd Dant Bl.6 ac iau (Unsain) (Ad)** |
| | **Hidio dim am Idiom, Catrin Angharad Jones** |

Mae nain yn dweud bob amser
Fod taid yn llyncu mul,
Ond sut bydd o'n gwneud hynny
'Rôl plât o ginio Sul?

Mae mrawd yn bygwth weithiau
Rhoi'r ffidl yn y to,
A finnau'n methu deall;
Gitâr sydd ganddo fo!

'Mae dad ar gefn ei geffyl
Yn aml!' meddai mam,
Ond eistedd mae'n y gegin
Yn bwyta'i frechdan jam?

Caf sws wrth fynd i'r gwely,
'Nos da fy nghyw bach i',
O mam! Pryd wnewch chi ddeall
Mai plentyn ydw i?